

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/00280/20

Llŷr Gruffydd MS / AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid / Chair of the Finance Committee
Senedd Cymru / Welsh Parliament
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

2 Hydref 2020

Annwyl Llŷr

Diolch ichi am eich llythyr 21 Medi ynghylch Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (y Bil) a chostau a manteision posibl Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Yn fy llythyr 27 Gorffennaf nodais y byddai'r adroddiad a rennais gyda'r Pwyllgor Cyllid yn llywio datblygu Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) a fyddai'n cyd-fynd ag unrhyw reoliadau olynol yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Rydym wrthi'n paratoi rheoliadau drafft i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig cyntaf yng Nghymru ac, yn ddarostyngedig i hynt y Bil yn y Senedd, byddwn yn ymgynghori ar y rhain cyn gynted â phosibl. Fel rhan o hyn rydym yn paratoi RIA manwl i asesu costau a manteision posibl sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn.

Rwyf yn credu ei bod yn fwy priodol cynnwys y costau a manteision yn yr RIA sy'n ategu'r rheoliadau hyn yn hytrach na'r Bil ei hun gan mai'r rheoliadau a fydd yn darparu'r manylion am sut y bydd pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn edrych ac a fydd yn sail i'r RIA wneud rhagdybiaethau cytbwys priodol. Nid yw'r Bil ond yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud rheoliadau o'r fath.

Byddwn yn falch o rannu copi o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau gyda'r Pwyllgor Cyllid cyn gynted ag y byddaf yn gallu.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.